## Polisi Consortia

### Consortia – Diffiniad

Consortiwm yw trefniant rhwng dwy neu'n fwy o ganolfannau i gynnig cymwysterau. Caiff ymgeiswyr o ganolfannau cofrestru gwahanol eu haddysgu a'u hasesu gyda'i gilydd fel un grŵp. Diffiniad o ganolfan gofrestru yw'r ganolfan lle mae ymgeisydd ar y gofrestr. Canolfan gydlynu yw'r ganolfan lle mae ymgeiswyr yn cael eu haddysgu (bydd rhai ymgeiswyr yn amlwg ar y gofrestr yn y ganolfan gydlynu, wedi'u cofrestru a'u haddysgu ynddi).

Dim ond ar gyfer unedau / cydrannau Asesiad di-Arholiad (AdA) a asesir yn fewnol a rhai unedau / cydrannau AdA a asesir yn allanol y mae trefniadau consortiwm ar gael.

### 1. Rolau a Chyfrifoldebau – Canolfannau Cydlynu Consortiwm

1.1. Rhaid i'r consortia benodi cydlynydd i gysylltu â CBAC ar ran yr holl ganolfannau yn y consortiwm. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan addysgu fydd hwn/hon fel arfer. Rhaid i ganolfannau cydlynu lenwi'r ffurflen gais am drefniadau consortia ar CAP erbyn 31 Ionawr ar gyfer pob cyfres haf.

1.2. Rhaid i ganolfan gydlynu pob consortiwm nodi'r canolfannau sy'n rhan o'i chonsortiwm a'r unedau / cydrannau y mae hyn yn berthnasol iddynt. Rhaid i ganolfannau cydlynu gysylltu â CBAC os oes unrhyw wybodaeth yn newid rhwng cyflwyno'r ffurflen gais a chyflwyno cofrestriadau terfynol.

1.3. Rhaid i ganolfannau cydlynu sicrhau bod yr holl waith a gyflwynir gan ganolfannau yn y consortiwm yn cael ei safoni'n fewnol cyn cyflwyno'r sampl i CBAC.

1.4. Mae canolfannau cydlynu'n gyfrifol am farcio'r gwaith ac am rannu'r marciau gyda'r ymgeiswyr sy'n cael eu haddysgu yn y consortiwm hwnnw yn unol â dogfen y CGC *'Hysbysiad i Ganolfannau – Hysbysu ymgeiswyr o'u marciau a aseswyd gan y ganolfan'*

1.5. Mae canolfannau cydlynu'n gyfrifol am hysbysu'r ganolfan gofrestru o'r marciau a ddyfarnwyd am yr Asesiad Di-arholiad. Rhaid gwneud hyn yn ddigon cynnar i alluogi'r ganolfan gofrestru i fewnbynnu a chyflwyno marciau ar IAMIS erbyn y dyddiad cau swyddogol ac i gynhyrchu'r sampl sydd i'w rannu gyda chydlynydd y consortiwm. Rhaid i'r ganolfan gydlynu brosesu unrhyw apêl gan ymgeisydd yn erbyn y marc a ddyfarnwyd.

1.6. Y ganolfan gydlynu sy'n gyfrifol am sicrhau bod ffurflenni dilysu / taflenni marciau yn cael eu llenwi a'u llofnodi gan yr athro a'r ymgeisydd. Rhaid iddyn nhw gydymffurfio â dyddiadau cau cyflwyno Asesiadau Di-arholiad a dosbarthu samplau / trefnu eu bod ar gael ar yr amser a ragnodwyd i'w cymedroli. Rhaid i'r samplau gyd-fynd â'r rhai a nodir gan IAMIS ar draws pob canolfan yn y consortiwm.

1.7. Os oes deg neu lai o ymgeiswyr mewn unrhyw ganolfan sy'n cael eu haddysgu fel rhan o'r consortiwm, rhaid i'r ganolfan gydlynu ddarparu gwaith yr holl ymgeiswyr ar gyfer y ganolfan/canolfannau honno/hynny i'w cymedroli. Rhaid i'r canolfannau cydlynu gysylltu â'r canolfannau yn y consortiwm os oes dros 10 ymgeisydd yn y ganolfan, er mwyn darparu'r sampl penodol sy'n ofynnol i'w gymedroli, fel y manylir ar IAMIS.

1.8. Mae'r ganolfan gydlynu'n gyfrifol am drefnu bod samplau ychwanegol ar gael yn brydlon, os bydd CBAC yn gofyn amdanynt. Gall hyn gynnwys rhywfaint o gyswllt â chanolfannau cofrestru, lle y bo'n briodol.

1.9. Ar ôl cymedroli, mae'r ganolfan gydlynu yn gyfrifol am gadw'r gwaith yn ddiogel nes bod y cyfnod ar gyfer adolygu'r cymedroli wedi cau.

1.10. Wrth gyflwyno cais am adolygiad o gymedroli, rhaid i'r ganolfan gydlynu sicrhau bod pob canolfan yn y consortiwm wedi cytuno â'r cais am adolygiad o gymedroli. Ar ôl derbyn cais am adolygiad o gymedroli, bydd ffurflen ddatganiad yn cael ei hanfon i'r ganolfan gydlynu i'w llenwi. Dylid e-bostio'r ffurflen at dîm Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau CBAC, cyn dechrau'r adolygiad o gymedroli.

1.11. Bydd canlyniadau'r adolygiad o gymedroli'n cael eu hanfon i bob canolfan yn y consortiwm.

## 2. Rolau a Chyfrifoldebau – Canolfannau Cofrestru

2.1. Canolfannau cofrestru sy'n gyfrifol am gysylltu â'r ganolfan gydlynu i ddarparu manylion yr ymgeiswyr a fydd yn cael eu cofrestru fel rhan o'r consortiwm.

2.2. Canolfannau cofrestru sy'n gyfrifol am gyflwyno cofrestriadau i CBAC ar yr adeg briodol.

2.3. Canolfannau cofrestru sy'n gyfrifol am hysbysu CBAC o unrhyw drefniadau arbennig, megis sefyllfaoedd lle maen nhw'n addysgu eu carfan eu hunain heblaw am un neu'n fwy o'u hymgeiswyr, sy'n cael eu haddysgu yng nghanolfan gydlynu'r consortiwm. Gallai hyn fod am resymau megis materion yn ymwneud â dewisiadau mewnol / amserlennu.  Mewn achosion o'r fath mae'n rhaid i ganolfannau cofrestru roi i CBAC manylion yr ymgeiswyr sydd am gael eu haddysgu yn eu canolfan eu hunain ond y mae eu gwaith i'w farcio mewn canolfan wahanol i'r brif garfan. Dylid gwneud hynny drwy ddefnyddio'r ffurflen *'Trefniadau Consortiwm Rhannol'* a'i hanfon dros e-bost i consortia@cbac.co.uk.

2.4. Canolfannau cofrestru sy'n gyfrifol am gysylltu â'r ganolfan gydlynu i ganfod y marciau terfynol i'w mewnbynnu ar IAMIS. Rhaid mewnbynnu marciau ar IAMIS erbyn dyddiadau cau CBAC.

2.5. Canolfannau cofrestru, **sydd â mwy na deg ymgeisydd wedi'u cofrestru mewn carfan ar gyfer uned a addysgir yn gyfangwbl mewn consortiwm,** sydd yn gyfrifol am gysylltu â'r ganolfan gydlynu i'w hysbysu o'r sampl sy'n ofynnol fel y nodwyd gan IAMIS. Rhaid gwneud hyn yn ddigon cynnar i alluogi

canolfannau cydlynu i ddarparu'r samplau i CBAC i'w cymedroli, ac erbyn y dyddiad cau penodedig.

2.6. Rhaid i bob canolfan yn y consortiwm gytuno ar adolygiad o gymedroli cyn cyflwyno cais. **Rhaid i bob canolfan gofrestru gyflwyno'r cais am yr adolygiad o gymedroli ar gyfer eu canolfan eu hunain.**